Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**CAMAU GWEITHREDU**

**Enw'r cyfarfod:** Grŵp Cynghori Annibynnol

**Dyddiad:** 15 Chwefror 2023

**Amser:** 10:30 yb i 12:30 yp.

**Lleoliad:** Tafarn y Plough, Rhosmaen, Llandeilo

**Cadeiriwyd y cyfarfod gan:** Derek Turner – Cynghorydd

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Derek Turner - Cynghorydd Annibynnol<br>Paul Saunders - Cynghorydd Annibynnol<br>Debra Croft - Cynghorydd Annibynnol<br>Amol Pandit - Cynghorydd Annibynnol<br>Patricia Rafique - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Paul Lewis - Dehonglydd Iaith Arwyddion Prydain<br>Teleri Williams - Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Iaith Gymraeg, Heddlu Dyfed-Powys<br>Miranda Bryant - Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chymorth y Gymraeg, Heddlu Dyfed-Powys<br>Gruff Ifan - Pennaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu<br>Steve Thomas - Prif Arolygydd, Gwasanaethau'r Ddalfa, Heddlu Dyfed-Powys<br>Samantha Mason - Cwnstabl yr Heddlu, Gweithrediadau Arbenigol, Heddlu Dyfed-Powys<br>Malcolm Montford - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi<br>Sarah Lewis - Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi |
| **Ymddiheuriadau:-** | Elizabeth Johnson - Cynghorydd Annibynnol<br>Baba Gana - Cynghorydd Annibynnol<br>Claire Parmenter - Dirprwy Brif Gwnstabl, Heddlu Dyfed-Powys |
| | Gwyrdd = Camau Gweithredu wedi'u Cwblhau<br>Melyn = Camau gweithredu yn mynd rhagddynt<br>Nodwyd = Penderfyniadau wedi'u nodi |

| | Rhif Cam Gweithredu | Cam Gweithredu / Penderfyniadau Allweddol | Perchennog | Amserlen | Statws | Diweddariad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 15 | IAG/15/24112022/A | Hysbysebu am aelodau newydd i'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar ofod hysbysebu ar-lein Stonewall Cymru. Manylion yr hysbyseb i'w hanfon at Nia Rees. | Miranda Bryant/<br><br>Nia Rees | Dyddiad y cyfarfod nesaf | Wedi'i gwblhau | 10/02/23 Cadarnhaodd Nia Rees fod hysbyseb ar gyfer recriwtio aelodau i'r Grŵp Cynghori Annibynnol wedi'i osod ar lwyfan swyddi Stonewall Cymru.<br><br>8/02/23 Nia Rees yn gwirio fod yr hysbyseb wedi ei gosod.<br><br>5/12//22 e-bost wedi'i anfon at Nia Rees gyda chais i osod hysbyseb recriwtio i'r Grŵp Cynghori Annibynnol ar blatfform Stonewall Cymru.<br><br>25/11/22 Anfon taflen recriwtio i'r Grŵp Cynghori Annibynnol at Ffion Grundy yn Stonewall Cymru sydd wedi'i ddosbarthu i'w holl gysylltiadau. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | IAG/16/150223/ Nodwyd | Trafododd y grŵp a oedd lleoliad niwtral yn fwy buddiol i gynnal cyfarfodydd y Grŵp Cynghori Annibynnol. Cytunodd y grŵp y byddai'n well ganddynt i'r cyfarfodydd gael eu cynnal ym mhencadlys yr Heddlu oherwydd ei fod yn lleoliad mwy cyfleus i bawb, a'r dechnoleg yn fwy dibynadwy a diogel. | Nodwyd | | | |
| 17 | IAG/17/150223/ Nodwyd | Rhoddodd y Prif Arolygydd Steve Thomas gyflwyniad ar y prosiect Dillad Gwrth-rwygo i'r grŵp.<br><br>Codwyd pryder ynghylch defnyddio dillad gwrth-rwygo gyda phobl sy'n hunan-niweidio, er y gallai fod rhywfaint o gyfiawnhad mewn rhai amgylchiadau dros eu defnyddio gyda phobl sy'n hunanladdol, nid yw'n briodol eu defnyddio fel 'strategaeth ymdopi' i atal pobl sy'n hunan-niweidio. Dywedodd y Prif Arolygydd Steve Thomas wrth y grŵp fod rhingyll y ddalfa yn creu a rheoli cynllun llesiant ar gyfer unigolion ac yn rheoli'r risg. | Nodwyd | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 18 | IAG/18/150223/A | Y Prif Arolygydd Steve Thomas i roi diweddariad mewn perthynas â'r prosiect Dillad Gwrth-rwygo ymhen chwe mis. | Nodwyd | Chwe mis | | |
| 19 | IAG/150223/A | Nododd Derek Turner fod y dillad gwrth-rwygo yn cyd-fynd ag S136 ac y byddant yn hysbysu'r Tîm Iechyd Meddwl am y prosiect hwn ac yn gofyn am adborth ganddynt. | Derek Turner | | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | IAG/20/150223/A | **Trais yn Erbyn Menywod a Merched**<br><br>O dan y pwnc, troseddau rhywiol a cham-drin domestig.<br><br>Gofynnwyd i'r grŵp roi adborth ar y cwestiynau canlynol.<br><br>**C1** Pa rwystrau sydd i aelodau'r cyhoedd adrodd ar droseddau Trais yn Erbyn Menywod a Merched i'r heddlu?<br><br>**C2** Beth ydych chi'n meddwl y dylem ni ei wneud i feithrin hyder i adrodd ar droseddau i'r heddlu?<br><br>**C3** Pa grwpiau cymunedol allwn ni weithio gyda nhw i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched? Pa grwpiau ydyn nhw? Pwy sydd wrth y llyw? Pa fath o ymgysylltu a fyddai'n briodol yn eich barn chi?<br><br>**C4** Sut y gallwn ni wella hyder mewn plismona?<br><br>**C5** A ydych chi wedi gweld unrhyw gyfathrebiadau gan yr heddlu am gam-drin domestig, treisio a throseddau rhywiol neu drais yn erbyn menywod a merched yn gyffredinol? Os felly, beth yw eich sylwadau a'ch adborth ? | Aelodau Grŵp Cynghori Annibynnol | | Cam Gweithredu wedi'i Gwblhau | Mae adborth wedi'i dderbyn a'i anfon ymlaen at yr Uwch-arolygydd Jayne Butler |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | IAG/20/150223/A | Trafodwyd y cwestiynau uchod gan y grŵp ac mae'r adborth a dderbyniwyd wedi'i gynnwys yn y ddogfen atodedig.<br><br>VAWG feedback received 15.2.23 Cym<br><br>**Cam Gweithredu:** Adborth a dderbyniwyd gan aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol wedi'i anfon at yr Uwch-arolygydd Jayne Butler. | | | | |
| 21 | IAG/21/150223/A | **Parhad am Drais yn Erbyn Menywod a Merched.**<br><br>Awgrymodd Sarah Lewis, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y dylai'r heddlu edrych ar ble maen nhw nawr o'i gymharu â chwe mis yn ôl.<br><br>**Cam Gweithredu:** Gwerthuso ble mae'r heddlu nawr o'i gymharu â chwe mis yn ôl. | Ditectif Uwch-arolygydd Jayne Butler | | Cam Gweithredu Newydd | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 22 | 22/150223/N | Stopio a Chwilio<br><br>Rhoddodd PC Samantha Mason, Gweithrediadau Arbenigol, drosolwg o Arferion Proffesiynol Awdurdodedig Stopio a Chwilio i'r grŵp. | Nodwyd | | | |